# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

**RHAN 5**

CWRICWLWM: ADDYSG ÔL-ORFODOL MEWN YSGOLION A GYNHELIR

PROSPECTIVE

**59 Gofyniad cwricwlwm cyffredinol**

(1) Rhaid i bennaeth a chorff llywodraethu ysgol a gynhelir sicrhau bod y cwricwlwm i ddisgyblion yr ysgol yn cydymffurfio â'r gofyniad yn is-adran (2).

(2) Y gofyniad yw bod y cwricwlwm yn gwricwlwm cytbwys ac eang—

(a) sy'n hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol y disgyblion a'r gymdeithas, a

(b) sy'n paratoi'r disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd yn ddiweddarach.

(3) Rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau bod y cwricwlwm yn cydymffurfio â'r gofyniad yn is-adran (2) ym mhob ysgol a gynhelir y mae'n ei chynnal.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau bod y cwricwlwm yn cydymffurfio â'r gofyniad yn is-adran (2) ym mhob ysgol a gynhelir.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 59 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**Statws**
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 59 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**
– s. 59 coming into force by S.I. 2022/652 art. 9(c)